

# DOLEN Y TAB 75

## 1-2 Hydref 2021

Am 11 fore Sul 3 Hydref

Oedfa Gymun yng nghwmni Ann ac Emlyn Davies gyda Sian Elin yn cyfeilio.

### OEDFAON GWEDDILL HYDREF

#### Cofiwch Gofrestru!

Am y tro, gofynnwn yn garedig i chi gofrestru eich bwriad i fynychu oedfaon yn y Tabernacl, a hynny erbyn **6 yr hwyr** ar y dydd Gwener blaenorol fan bellaf.

Ni wneir casgliad yn ystod yr oedfaon, ond bydd blychau casglu yn y cyntedd.

- 10 Yng ngofal Iwan Rowlands a'r Parchg. Aled Edwards.
- 17 Cwrdd Diolchgarwch gyda'r Ysgol Sul, Huw M a Bethan Reynolds.
- 24 Yng ngofal Glenys Roberts a'r Parchg. Gethin Rhys.
- 31 Yng ngofal Lyn a Mike West a'r teulu.

### Hefyd ddydd Sul 3 Hydref

#### 12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal y Parchg. Guto Prys ap Gwynfor, Llandysul.

#### 12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

#### 19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol – Gwawr wedi Hirnos

#### E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

### Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 12 Hydref. Estynnir croeso cynnes i bawb anfon gair atom os oes unrhyw fater yr hoffech ei godi. Gallwch gysylltu gydag un o aelodau'r Bwrdd neu anfon neges at yr Ysgrifennydd: ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk), anfon neges destun i 07710 237327 neu ffonio 01443 225205) dim hwyrach na nos Lun 11 Hydref. Ymhlith yr eitemau ar Agenda'r cyfarfod bydd adolygu trefniadau ailagor y Tabernacl ar sail y profiad a gafwyd yn ystod mis Medi. Byddai aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi eich sylwadau chi ar yr eitem hon.

Codi arian i  
**BORE COFFI**  
MWYR'R BYD

CYMORTH CANSER  
**MACMILLAN**



**Dydd Llun 4ydd o Hydref**  
**Galwch mewn rhwng 10.30-12.00**  
Y Ganolfan, Capel Tabernacl



**Os hoffech gyfrannu cacen, teisen, tarten neu beth bynnag sy'n mynd a'ch bryd i'r bore coffi yna cysylltwch gydag Eleri Mai:**

[elerimaithomas@hotmail.com](mailto:elerimaithomas@hotmail.com)  
neu 07971397264

## YR OEDFA HYBRID

Tra bod nifer fawr ohonom yn croesawu medru dychwelyd i'r Tabernacl ar foreau Sul unwaith yn rhagor, mae eraill – am resymau cwbl ddealladwy – yn parhau'n betrusgar i fentro cymysgu dan do. Am y tro nid ydym yn cynnig darpariaeth iddynt ar fore Sul fel roedd gennym trwy'r 'darllediadau rhithiol' pan oedd drysau'r Tabernacl ar gau. Gobaith y Bwrdd i'r dyfodol yw y medrwn gynnal oedfaon 'byw' fydd ar gael hefyd yn rhithiol i bob un sy'n methu mynychu oedfa am ba reswm bynnag.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i lunio cais i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen am nawdd dan y cynllun newydd a lansiwyd ganddynt dros yr haf sy'n gynnig grantiau i gapeli ac eglwysi er mwyn uwchraddio'r dechnoleg. Byddwn yn anfon cais atynt erbyn diwedd mis Hydref yn y gobaith, os bydd yn llwyddiannus, y medrwn symud yn ein blaenau i fod yn eglwys hybrid.

# FFORMAT NEWYDD I'R OEDFAON

Mewn neges a anfonwyd at yr aelodau yn gynharach yr wythnos hon, talodd Geraint Rees, Trefnydd yr Oedfaon a Chyhoeddiadau'r Tabernacl, air o ddiolch i'r criw diwyd oedd wedi gofalu am y gwasanaethau yn ystod mis Medi, a dymuno'n dda i'r rhai fydd yng ngofal oedfaon mis Hydref. Aeth yn ei flaen i nodi bod nifer o blith y gynulleidfa wedi sylwi ar y gwahaniaeth yn fformat yr oedfaon ers dychwelyd i'r capel. O dan y drefn newydd, yn hytrach na chael pytau byrion cyn cyflwyno myfyrdod hirach, sef y patrwm a fabwysiadwyd ers blyneddoddedd, mae'r fformat newydd yn cynnwys tri 'slot' o tua wyth munud o hyd yr un gydag emynau fel dolen gyswllt.

Gwyntyllwyd y syniad yma i newid patrwm yr oedfaon mewn cyfarfod o'r Gweithgor Gweinidogaethau a gynhaliwyd ganol mis Mai i drafod papur a gyflwynwyd gan Eirian Rees, sef *Y Ffordd Ymlaen wedi'r Pandemig*. Cytunwyd i fwrw ymlaen gyda'r cynnig i fabwysiadu'r fformat newydd pan fyddem yn dychwelyd i'r capel, a hynny dan arweiniad Geraint. Yn ei neges, dywed: *'O ganlyniad i'r newid, mae'r oedfaon yn fyrrach – sy'n ddoeth o ran reoli'r haint, ond hefyd mae'n cynnig cyfle i gynnal sgysiau iachusol ar ddiwedd yr oedfaon.'* Deallwn fod ymateb cadarnhaol wedi ei fynegi gan nifer i'r patrwm newydd.

Un o brif obeithion y Gweithgor Gweinidogaethu wrth fabwysiadu'r drefn newydd fyddai denu rhagor, yn arbennig o blith y to iau, i gyfrannu i'r oedfaon. Wrth gloi, roedd Geraint am annog unrhyw un fyddai'n dymuno ymaelodi â'r rota i gysylltu ag e. *'Cofiwch, os ydych am ymuno â'r criw bydd croeso cynnes i chi,'* meddai. Ychwanegodd hefyd nad oedd prinder adnoddau i droi atynt am syniadau.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw *Dolen y Tab* i daenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)



NI NOL.....  
**TWMIAID**  
(BI 7+)  
Dydd Sul 3ydd o Hydref  
5 - 6.30  
Y Ganolfan  
Pitsa, Gemau, Trefnu rhaglen  
  
Am fwy o wybodaeth  
Eleri Mai 07971397264  
[elerimaitomas@hotmail.com](mailto:elerimaitomas@hotmail.com)

## Cyrsiau Mis Hydref Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

*Defnyddio'r dechnoleg fodern  
yn ein haddoliad*

**7 o'r gloch, nos Fawrth 19 Hydref**  
RHODRI DARCY, Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu  
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

\*\*\*\*\*

**Gweinidogaethu ym mywyd yr eglwys –  
Sacrament Bedydd**

**7 o'r gloch, nos Fawrth 26 Hydref**  
ALED JONES, Cyfarwyddwr a Chydlynnydd  
Hyfforddi'r Coleg

**Bydd pob cwrs ar-lein eleni**  
Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth  
[aled@colegyrannibynwyr.cymru](mailto:aled@colegyrannibynwyr.cymru)

**CROESO CYNNES IAWN I BAWB**



**Coffi a Sgwr**  
**Canolfan y Tabernacl**  
**Bob bore Mawrth**  
**10.30-12.00**  
**Efail Isaf**  
**Croeso i bawb**